# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 1

ETHOLIADAU

*Yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol*

### 2 Estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol

(1) Yn adran 2 o Ddeddf 1983 (etholwyr llywodraeth leol)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) ym mharagraff (c), yn lle "or a relevant citizen of the Union" rhodder ", a relevant citizen of the Union or (in Wales) a qualifying foreign citizen";

(ii) ym mharagraff (d), ar ôl "over" mewnosoder "except in Wales (see subsection (1A))";

(b) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) In Wales, voting age is 16 years or over."

(2) Yn adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (hawlogaeth i bleidleisio)—

(a) yn is-adran (1)(a), hepgorer "or fall within the extended franchise for Senedd elections as described in this section";

(b) hepgorer is-adran (1A);

(c) hepgorer is-adran (1B).

(3) Yn adran 4 o Ddeddf 1983 (hawlogaeth i fod yn gofrestredig fel etholwr llywodraeth leol)—

(a) yn is-adran (3)—

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. (See end of Document for details)

(i) ym mharagraff (c), yn lle "or a relevant citizen of the Union" rhodder ", a relevant citizen of the Union or (in relation to a local government election in Wales) a qualifying foreign citizen";

(ii) ym mharagraff (d), hepgorer " or, if resident in an area in Wales, is 16 years of age or over";

(b) hepgorer is-adran (3A);

(c) hepgorer is-adran (5B).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2(1)(3) mewn grym ar 20.3.2021 at ddibenion penodedig (yn ddarostyngedig i a. 3), gweler **a. 175(3)(b)**

**I2** A. 2(2) mewn grym, gweler **a. 175(5)**

## 3 Darpariaeth drosiannol

(1) Er gwaethaf y ffaith bod y diwygiadau a wneir gan y darpariaethau a grybwyllir yn is-adran (2) yn dod i rym yn rhinwedd adran 175(3), nid ydynt ond yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad llywodraeth leol neu refferendwm lleol at ddibenion—

(a) etholiad llywodraeth leol pan gynhelir y bleidlais ar 5 Mai 2022 neu ar ôl hynny;

(b) refferendwm lleol a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu ar ôl hynny.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 2(1) a (3);

(b) adran 22;

(c) paragraffau 2(12), 8(3)(b), 15 ac 19 o Atodlen 2.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "refferendwm lleol" yw refferendwm a gynhelir o dan—

(a) adran 27 o Ddeddf 2000 neu yn rhinwedd rheoliadau neu orchymyn a wneir o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno;

(b) adran 40 o Fesur 2011.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(c)**

## 4 Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu cymorth

(1) Rhaid i brif gyngor—

(a) hybu ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc berthnasol o'r trefniadau ar gyfer cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol sy'n gymwys iddynt;

(b) cymryd y camau y mae'r cyngor yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn helpu pobl ifanc berthnasol i gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol.

(2) Yn yr adran hon ystyr "pobl ifanc berthnasol" yw—

(a) personau sy'n preswylio yn ardal y prif gyngor sydd wedi cyrraedd 14 oed, ond sydd o dan 18 oed;

(b) personau o'r un oed—

(i) nad ydynt yn preswylio yn ardal y prif gyngor, a

(ii) sy'n derbyn gofal gan y cyngor;

(c) personau o'r un oed—

(i) nad ydynt yn preswylio yn ardal y prif gyngor, a

(ii) sy'n bersonau y mae gan y cyngor ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo eu llesiant o dan adran 109 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(3) Yn yr adran hon, mae person yn derbyn gofal os yw'r person yn blentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 4 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(c)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.